CLAWR Adroddiad Blynyddol 2004/2005

Er Budd Y Defnyddwyr

Crynodeb o 14eg Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyfreithiol

LEGAL SERVICES OMBUDSMAN

Penodir Ombwdsman y gwasanaethau cyfreithiol gan yr Arglwydd Ganghellor i oruchwylio'r modd y mae'r pum corff proffesiynol sy'n gyfrifol am osod a chynnal safonau ymddygiad a safonau gwasanaeth o fewn y proffesiwn cyfreithiol yn delio â chwynion am dwrneiod, bargyfreithwyr, gweithredwyr cyfreithiol, trosglwyddwyr trwyddedig a gweithredwyr patentau.

Ni chaiff yr Ombwdsman fod yn dwrnai cymwysedig ac mae'n gwbl annibynnol ar y proffesiwn cyfreithiol. Ombwdsman y gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yw Ms Zahida Manzoor CBE.

Dros y deuddeg mis diwethaf, ni welwyd dim arafu ar y rhuthr newidiadau sydd ar droed. Ym mis Rhagfyr 2004, cyhoeddodd Syr David Clementi ei adroddiad terfynol gyda'i argymhellion i'r Arglwydd Falconer, Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Cyfansoddiadol ac Arglwydd Ganghellor ynglŷn â dyfodol rheoleiddio'r gwasanaethau cyfreithiol. Croesawodd yr Ombwdsmon argymhelliad Syr David ynglŷn â sefydlu bwrdd rheoleiddio trosfwaol, **Y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol**, i ddirprwyo pŵer rheoleiddio i gyrff proffesiynol sy'n gallu ei fodloni bod digon o fwlch yn bodoli rhwng swyddogaethau rheoleiddio a swyddogaethau cynrychioli, a chytuno ar lefel sylfaenol o safonau gwasanaeth. Roedd yr Ombwdsmon hefyd yn croesawu argymhelliad arall Syr David ynglŷn â sefydlu **Swyddfa Cwynion Cyfreithiol** (dan oruchwyliaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol) i gynnig un man cyswllt penodol ar gyfer defnyddwyr. Gan y byddai'n annibynnol, byddai'n tawelu pryderon sydd gan y cyhoedd ynglŷn â thwrneiod yn delio â chwynion am dwrneiod, a byddai cwynion am bob corff proffesiynol cyfreithiol yn cael eu trin yr un fath, er mwyn sicrhau cysondeb.

Mae'r Llywodraeth wedi cefnogi argymhellion Adroddiad Clementi yn fras. Os yw'r argymhellion hyn yn cael eu derbyn ac yn cael eu gweithredu gan y Senedd, yna bydd y corff trin-cwynion annibynnol sengl newydd yn terfynu swyddogaeth delio â chwynion Cymdeithas y Gyfraith, Cyngor y Bar a chyrff proffesiynol cyfreithiol eraill. Bydd Swyddfa Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyfreithiol (OLSO) yn peidio â bod yn ei ffurf bresennol fel corff trin-cwynion trydedd haen.

Ar ôl dadlau na ddylai OLSO fod â'r nod o geisio achub ei gam ei hun, mae'r Ombwdsmon yn gadarn o'r farn bod rhaid i unrhyw gorff trin-cwynion i'r dyfodol ganolbwyntio ar gynnal y safonau uchaf posibl wrth ddelio â chwynion, yn hytrach na bodloni ar nodweddion cyffredin, a sicrhau mai anghenion y defnyddiwr sydd flaenaf bob tro. Mae'r grwpiau defnyddwyr wedi datgan yn gwbl ddi-flewyn-ar-dafod na ddylai unrhyw gorff trin-cwynion i'r dyfodol fod yn 'ailwampiad' arwynebol o sefydliadau cyfredol. Mae'r Ombwdsmon yn cefnogi'r farn honno. Fel y cyrff proffesiynol, mae'r Ombwdsmon yn awyddus i weld penderfyniad yn cael ei wneud am leoliad y cyrff rheoleiddio a thrin-cwynion newydd. Bydd ansicrwydd ynglŷn â hyn yn ei gwneud hi'n anos i gynllunio gweithlu OLSO a'r cyrff proffesiynol yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

Swyddfa Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyfreithiol (OLSO)

Y mae'r prif ystadegau mewn perthynas â pherfformiad trin-cwynion OLSO i'w cael yn yr adran Ffeithiau a Ffigyrau yn y Crynodeb hwn.

Dechreuodd OLSO y flwyddyn gyda 205 o achosion ar y gweill. Derbyniodd y Swyddfa 1,743 o achosion newydd rhwng Ebrill 2004 a Mawrth 2005 ac fe gaeodd 1,453 o achosion. Fel y soniodd yr Ombwdsmon yn ei hadroddiad diwethaf, byddai rhagori ar berfformiad 2003/2004 bron yn amhosib. Gwelwyd cynnydd o 16.5% yn nifer yr achosion a dderbyniwyd gan OLSO, o'i gymharu â 2003/2004. Mae hyn yn gynnydd gwaith sylweddol i swyddfa fach. Targed OLSO, y cytunwyd arno gyda'r Swyddfa Materion Cyfansoddiadol, oedd cwblhau 90% o ymchwiliadau o fewn 6 mis i dderbyn ffeil y corff proffesiynol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rhagorodd y Swyddfa ar y targed hwn – cwblhawyd 99% o achosion o fewn 6 mis. Pennodd yr Ombwdsmon darged mewnol o gwblhau 90% o achosion o fewn 3 mis; cwblhawyd 53.8% o achosion o fewn yr amserlen hon. Cyfartaledd yr amser ar gyfer cwblhau ymchwiliadau oedd 3.5 mis o'i gymharu â 2.5 mis yn 2003/2004. Cyfanswm yr iawndal a ddyfarnwyd yn 2004/2005 oedd £131,394.82, gyda dyfarniad cyfartalog o £408. Y dyraniad uchaf oedd £5,000 a'r isaf oedd £15 (fodd bynnag, roedd hyn yn rhan o ddyfarniad cyffredinol mwy).

Mae OLSO hefyd wedi gweithredu nifer o gynlluniau mewnol i sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon, ac mae'n ymdrechu'n barhaus i sicrhau gwerth da am arian.Ddechrau'r flwyddyn, gwnaed adolygiad sylfaenol o waith y Swyddfa, ac esgorodd hynny ar newid ei strwythur a'i dulliau gweithredu, gan beri iddi allu cyflawni ei hamcanion o ran gweithredu ac o ran strategaeth. Cynhaliodd y Swyddfa gymorthfeydd gwaith achos rheolaidd, gan roi cyfle i weithwyr achos drafod tueddiadau a materion a godai o waith achos, a chyfrannu at sicrhau bod y Swyddfa'n parhau i gynhyrchu gwaith o'r ansawdd a'r cysondeb uchaf. Ar ben hynny, mae'r Swyddfa'n cyflwyno rhaglen sicrhau ansawdd, a nod yr Ombwdsmon yw gweld y rhaglen hon yn cael achrediad allanol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Gwnaed adolygiad sylfaenol o Lawlyfr Gwaith Achos OLSO ac mae'n cael ei adolygu a'i ddatblygu'n barhaus dan gyfarwyddyd gweithgor rheolaidd. Mae'r llawlyfr yn cael ei adolygu, ei ddiwygio a'i ehangu'n barhaus i helpu ein gweithwyr achos wrth i waith achos a pholisïau ddatblygu o hyd. Mae'r Swyddfa hefyd yn cydlynu ymarfer meincnod gyda'r cyrff proffesiynol. Bu'r Ombwdsmon yn gadeirydd cyfarfod ym mis Ionawr 2005 lle rhoddwyd cyflwyniad gan bob corff proffesiynol ynglŷn â'r camau y maent yn eu cymryd.

Adolygu sut y mae'r Cyrff Proffesiynol yn trin Cwynion

Cymdeithas y Gyfraith

Mae Cymdeithas y Gyfraith wedi llwyddo i ymdopi â swmp yr achosion a dderbynnir, a lleihau mymryn ar y dagfa o waith a gronnodd. Elfen a gyfrannodd at hyn oedd y ffaith mai dim ond cynnydd bychan o 0.5% a welwyd yn nifer yr achosion a dderbyniwyd, o'i gymharu â chynnydd o 7.1% y llynedd. Cyfanswm y cwynion a dderbyniwyd gan Gymdeithas y Gyfraith rhwng Ebrill 2004 a Mawrth 2005 oedd 17,074. Caeodd Cymdeithas y Gyfraith 18,042 o achosion, a thocio 968 oddi ar ei baich achosion, neu 13.5%. Roedd gan Gymdeithas y Gyfraith faich achosion byw o 6,942 ddiwedd Mawrth 2005.

Mae Cymdeithas y Gyfraith hefyd wedi llwyddo i drin â chwynion yn gynt. Cynyddodd canran yr achosion a gwblhawyd o fewn 3, 6, 12 a 18 mis, o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf.

Yn ystod 2004/2005, ymchwiliodd OLSO i 1,265 o achosion gan gwynwyr a oedd yn anfodlon â'r ffordd yr oedd Cymdeithas y Gyfraith wedi ymchwilio i'w hachos. Roedd yr Ombwdsmon yn fodlon â 62% o'r achosion yr oedd Cymdeithas y Gyfraith wedi delio â hwy, o'i gymharu â 53.3% y llynedd a 67.2% yn 2002/2003.

Gwnaeth yr Ombwdsmon gyfanswm o 466 o argymhellion mewn 407 o achosion. Roedd hyn yn cynnwys 162 o achosion i'w hailystyried gan Gymdeithas y Gyfraith, sef 106 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Roedd 304 o achosion lle'r oedd rhaid i Gymdeithas y Gyfraith dalu iawndal, sef 545 yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Cyfanswm yr iawndal a dalwyd i gwynwyr oedd £125,310 a'r dyfarniad cyfartalog oedd £405.53. Dyfarnwyd y mwyafrif o daliadau iawndal oherwydd oedi gyda dyrannu neu ymchwilio i gŵyn. Y prif resymau a roddodd yr Ombwdsmon wrth ofyn i Gymdeithas y Gyfraith ailystyried y ffordd y deliwyd ag achos oedd:

- materion nas deliwyd â hwy;
- penderfyniadau afresymol neu rai a esboniwyd yn wael;
- anwybyddu tystiolaeth.

Siom i'r Ombwdsmon oedd nodi nad oedd y brys yr oedd ei angen gydag achosion a ddychwelir i'w hailystyried wedi amlygu ei hun eto.

Roedd yr Ombwdsmon yn cael yr argraff bod nifer o weithwyr achos Cymdeithas y Gyfraith yn ei chael hi'n anodd cynnal y safonau ansawdd sylfaenol y dylent eu cynnal. Prawf o'r problemau hyn oedd:

- cyflwr gwael y ffeiliau pan oeddent yn cyrraedd OLSO;
- llythyrau at gwynwyr yn cael eu hanfon i'r cyfeiriad anghywir;
- methu anrhydeddu addewidion.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod rheolaeth ansawdd fewnol Cymdeithas y Gyfraith yn ymddangos fel petai ddim yn bodoli o gwbl. Roedd yr Ombwdsmon yn credu bod Cymdeithas y Gyfraith wedi gwneud peth cynnydd, ond ychydig o fudd oedd i hynny os nad oedd y penderfyniadau a wneid ganddynt, a'r broses yr oeddent yn ei dilyn, yn sicrhau canlyniad teg, wedi ei esbonio'n glir.

Roedd bron i 25% o'r achosion a gaewyd gan Gymdeithas y Gyfraith wedi digwydd trwy gyfrwng cymodi. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr Ombwdsmon bod peryglon gyda'r ffordd hon o weithredu, a bod rhaid cael gwarchodaeth briodol. Roedd hi'n bryderus ei bod hi wedi gweld achosion yn cael eu cyfeirio ati heb i'r defnyddiwr sylweddoli eu bod mewn proses gymodi.

Cyngor Cyffredinol y Bar dros (Cyngor y Bar)

Hon oedd y flwyddyn gyntaf i'r Ombwdsmon allu cyhoeddi ffigyrau Cyngor y Bar am yr un cyfnod â chyfnod adrodd OLSO (Ebrill 2004 – Mawrth 2005). Caeodd Cyngor y Bar 524 o achosion a, thrwy hynny, sicrhau lleihad o 69 yn nifer ei achosion byw, neu 13%. Mae'r ffigyrau hyn yn ymwneud â 'chwynion lleyg'.

Roedd yr Ombwdsmon yn falch o nodi bod Cyngor y Bar, unwaith yn rhagor, wedi llwyddo i drin cwynion yn gynt. Cynyddodd canran yr achosion a gwblhawyd o fewn 3, 6, 12 a 18 mis, o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr Ombwdsmon yn credu bod angen i Gyngor y Bar ystyried beth oedd y nifer mwyaf o achosion y gellid eu cau o fewn yr amserlenni hyn, a phennu targedau iddo ef ei hun, fel llinyn mesur ar gyfer gwelliannau pellach. Anogodd yr Ombwdsmon Gyngor y Bar i edrych ar yr achosion a oedd dros 12 mis oed, a gweithredu i'w datrys ar fyrder.

Yn ystod y flwyddyn, ymchwiliodd OLSO i 174 o achosion a gyfeiriwyd gan bobl a oedd yn anfodlon â'r ffordd yr oedd Cyngor y Bar wedi delio â'u cwyn. Roedd yr Ombwdsmon yn fodlon â'r ffordd yr oedd Cyngor y Bar wedi delio â 78.7% o achosion. Er bod hyn yn adlewyrchu mwyafrif sylweddol o achosion, hwn yw'r gyfradd boddhad isaf y mae Cyngor y Bar wedi ei dderbyn, ac roedd y dangosydd perfformiad allweddol hwn yn bendant ar i lawr.

Roedd dau draean yr argymhellion yn ymwneud ag ansawdd y broses llunio-penderfyniadau, megis materion nas ystyriwyd; dod i benderfyniadau afresymol; a gwrthodiad amhriodol. Roedd y traean arall yn ymwneud â gweinyddiaeth wael, megis oedi.

Cafodd y gŵyn gyntaf a oedd yn ymwneud â mynediad uniongyrchol ei derbyn gan Gyngor y Bar ym mis Ionawr 2005, 6 mis ar ôl ei gyflwyno. Roedd yr Ombwdsmon yn argymell y dylid cael monitro clos yn awr er mwyn gallu rheoli cwynion yn effeithiol rhag ofn y byddai cynnydd arwyddocaol yn dod i law trwy gyfrwng y llwybr newydd hwn. Roedd yr Ombwdsmon yn awyddus i weld proses trin-cwynion effeithiol ac effeithlon yn cael ei chyflwyno, ac yn cael ei gweithredu gan bob siambr, ac roedd yn falch o nodi bod Cyngor y Bar wedi creu gweithgor i ystyried y mater hwn. Roedd yr Ombwdsmon hefyd yn falch o nodi bod Cyngor y Bar wedi parhau i edrych at ffyrdd o wneud ei wasanaeth cwynion yn fwy hwylus.

Cyngor y Trawsgludwyr Trwyddedig (CLC)

Derbyniodd CLC 172 o gwynion rhwng Ionawr 2004 a Rhagfyr 2004, ac fe gaewyd 138. Caeodd CLC ychydig mwy o achosion o fewn 3 mis i'w derbyn o'i gymharu â 2003, ond bu gostyngiad bychan yn nifer yr achosion a gaewyd o fewn 6 mis. Dywedodd CLC bod y cynnydd o 17% yn y baich achos a dderbyniwyd wedi rhoi straen ar eu systemau trin-cwynion, felly fe recriwtiwyd gweithwyr achos ychwanegol i sicrhau nad oedd y gwasanaeth yr oeddent yn ei gynnig i gwynwyr yn dioddef. Nid oedd cynnydd o 48% yn yr achosion a gaewyd gan CLC wedi arwain at gyfeirio unrhyw achosion ychwanegol i OLSO. Cynhaliodd yr Ombwdsmon 9 ymchwiliad i gwynion gan bobl a oedd yn anfodlon â'r ffordd y deliodd CLC â'u cwyn – yr un faint â'r llynedd. Mae hyn yn awgrymu bod eu system trin-cwynion yn bodloni pobl.

Mae CLC yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses meincnodi a oruchwylir gan OLSO. Yn dilyn ymatebion i'w holiadur, crëwyd ffurflen a thaflen gwynion diwygiedig. Maent hefyd yn bwriadu cyhoeddi set o safonau sylfaenol ar gyfer delio â chwynion ar gyfer ymarferwyr.

Sefydliad y Gweithredwyr Cyfreithiol (ILEX)

Ni dderbyniodd OLSO unrhyw achosion am y ffordd y deliodd ILEX â chwynion. Dewisodd ILEX amseroedd prosesu ac amseroedd cwblhau fel pwnc ar gyfer meincnodi. Argymhellodd ILEX nifer o newidiadau ar sail eu canfyddiadau. Roedd y rhain yn cynnwys amserlen dreigl ar gyfer cwblhau ymchwiliad i achosion. Ar yr olwg gyntaf, nid oedd y gyfradd hon yn edrych yn ddigon uchelgeisiol i'r Ombwdsmon, ac fe hoffai hi weld mwy o achosion yn cael eu cau yn gyflym. Fodd bynnag, roedd yr Ombwdsmon yn sylweddoli bod y fframiau amser yn cynnwys achosion 'cwsg', lle'r oedd ILEX yn methu â pharhau â'u hymchwiliad oherwydd gweithgarwch trydydd parti. Argymhellodd yr Ombwdsmon bod ILEX yn anwybyddu'r amser a dreuliwyd yn disgwyl i weithgarwch allanol gael ei gwblhau yn eu safonau gwasanaeth ar gyfer cwynion.

Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Patentau (CIPA)

Ni dderbyniodd OLSO unrhyw achosion gan ddefnyddwyr am y ffordd y deliodd CIPA â chwynion. Mae CIPA hefyd yn gyfranogwyr gweithredol yn y prosiect meincnodi. Rhoesant hwy bwyslais ar ddatrys materion yn lleol trwy ddefnyddio cymodi. Roedd gwaith pellach ar droed i gynhyrchu gweithdrefnau rheoleiddio a disgyblu ar gyfer aelodau, ac roedd hyn wedi cynnwys rhoi nodyn ymarfer i aelodau ynglŷn â thrin cwynion. Argymhellodd yr Ombwdsmon bod ILEX yn ystyried y posibilrwydd o greu trefn trin-cwynion strwythuredig i ymarferwyr ei defnyddio.

Sefydliad y Twrneiod Nod Masnach (ITMA)

Yn ystod y flwyddyn, cytunwyd y byddai'r Ombwdsmon yn rhoi i ddefnyddwyr Twrneiod Nod Masnach yr hawl i gyfeirio eu hachos ati hi os oeddent yn anfodlon â'r ffordd yr oedd ITMA wedi delio â'u cwyn. Bydd yr Ombwdsmon yn cynnal cyfarfodydd cychwynnol gyda'r corff proffesiynol, a bydd ei Hadroddiad Blynyddol yn cynnig sylwadau ar unrhyw achosion a ddeilliodd o'r maes gwaith newydd hwn.

Ffeithiau a Ffigurau

Cwynion a'r Proffesiwn Cyfreithiol

	Nifer yn ymarfer ac yn dod dan gylch gorchwyl yr Ombwdsmon	Nifer y cwynion i gyrff proffesiynol yn 2004/2005	Adroddiadau gan OLSO yn 2004/2005	% yr achosion corff proffesiynol i OLSO
Twrneiod/ Cymdeithas y Gyfraith	96,757	17,074	1,265	7.41%
Bargyfreithwyr /Cyngor y Bar	14,364	455	174	38.2%

	Nifer yn ymarfer ac yn dod dan gylch gorchwyl yr Ombwdsmon	Nifer y cwynion i gyrff proffesiynol yn 2004	Adroddiadau gan OLSO yn 2004/2005	% yr achosion corff proffesiynol i OLSO
Trawsgludwyr Trwyddedig/CLC	826	172	9	5.23%
Gweithredwyr Cyfreithiol/ ILEX	24	48	0	Dim
Gweithredwyr Patentau (CIPA)	62	5	0	Dim

Ystadegau Baich Gwaith OLSO

	2004/2005	2003/2004	2002/2003	2001/2002
Achosion yn disgwyl am ymchwiliad ar ddechrau'r flwyddyn	205	451	886	998
Achosion newydd a dderbyniwyd i'w hymchwilio yn ystod y flwyddyn	1,743	1,485	1,745	1,677
Nifer yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn	1,453	1,731	2,180	1,789
Achosion a gariwyd ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn	**496**	**205**	**451**	**886**

Amser Cwblhau Achosion OLSO

Adroddiadau a gyhoeddwyd	2004/2005	2003/2004	2002/2003	2001/2002
Cyfanswm yr adroddiadau	1,453	1,731	2,180	1,789
% a gyhoeddwyd o fewn 6 mis	99.0%	95.9%	70%	58%
% a gyhoeddwyd o fewn 7 i 9 mis	0.9%	2.5%	5%	9%
% a gyhoeddwyd o fewn 10 i 12 mis	0.1%	1.3%	8%	15%
% a gyhoeddwyd dros 12 mis	Dim	0.3%	17%	18%
Cyfartaledd amser cwblhau	**3.5**	**2.5**	**5.6**	**6.7**

Ymchwiliadau lle canfu'r Ombwdsmon bod cwynion wedi eu trin yn foddhaol

	Ebrill 2004 i Fawrth 2005	Ebrill 2003 i Fawrth 2004	Ebrill 2002 i Fawrth 2003	Ebrill 2001 i Fawrth 2002
Twrneiod/ Cymdeithas y Gyfraith	62.0%	53.3%	67.2%	57.9%
Bargyfreithwyr /Cyngor y Bar	78.7%	86.8%	88.4%	92.9%
Trawsgludwyr/CLC	33.3%	66.7%	61.5%	60.0%
Pob achos	**63.8%**	**57.5%**	**69.2%**	**60.9%**

Canlyniad ymchwiliadau OLSO

Ebrill 2004 i Fawrth 2005	Argymhelliad		Beirniadaeth		Yn foddhaol		Cyfanswm
Cymdeithas y Cyfreithwyr*	**409	32.4%	***72	5.7%	784	62.0%	1,265
GCB	25	14.4%	****12	6.9%	137	78.7%	174
CLC	6	66.7%	0	0.0%	3	33.3%	9
Cymdeithas y Gyfraith yn yr Alban	0	0.0%	2	40.0%	3	60.0%	5
Cyfanswm	**440**	**30.3%**	**86**	**5.9%**	**927**	**63.8%**	**1,453**

* Yn cynnwys 4 achos y deliwyd â hwy gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyfreithiol yr Alban ar ran yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyfreithiol

** Yn cynnwys 1 lawndal Twrnai ac 1 Gorchymyn yn erbyn y Twrnai

*** Yn cynnwys 3 Beirniadaeth o Dwrnai

**** Yn cynnwys 1 Beirniadaeth o Dwrnai

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael o:

Ar-lein
www.tso.co.uk/bookshop

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion ffôn/ Ymholiadau cyffredinol: 0870 600 5522
Archebwch trwy'r Lein Boeth Seneddol Lo-Call 0845 7 023474
Archebion Ffacs: 0870 600 5533
E-bost: book.orders@tso.co.uk
Ffôn Testun 0870 240 3701

Siopau TSO
123 Kingsway, Llundain WC2B 6PQ
020 7242 6393 Ffacs 020 7242 6394
68-69 Bull Street, Birmingham B4 6AD
0121 236 9696 Ffacs 0121 236 9699
9-21 Princess Street, Manceinion M60 8AS
0161 834 7201 Ffacs 0161 833 0634
16 Arthur Street, Belffast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401
18-19 Stryd Fawr, Caerdydd CF10 1PT
029 2039 5548 Ffacs 029 2038 4347
71 Lothian Road, Caeredin EH3 9AZ
0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

Y Siop Llyfrau Seneddol
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/Ymholiadau Cyffredinol 020 7219 3890
Archebion ffacs 020 7219 3866

Asiantau Achrededig TSO
(gweler Y Tudalennau Melyn)

a thrwy lyfrwerthwyr da

- Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys Datganiad Ariannol Cryno o gyfrifon blynyddol llawn Swyddfa Ombwdsman y Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae'r cyfrifon llawn ar gael, wrth wneud cais amdanynt, o Swyddfa Ombwdsman y Gwasanaethau Cyfreithiol.

- Mae rhagor o gopïau o'r Adroddiad Blynyddol Cryno hwn ar gael wrth wneud cais amdanynt o Swyddfa Ombwdsman y Gwasanaethau Cyfreithiol.

- Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chrynodeb yr Adroddiad Blynyddol hefyd i'w cael ar-lein yn WWW.OLSO.ORG

Swyddfa Ombwdsman y Gwasanaethau Cyfreithiol:

3rd floor, Sunlight House,
Quay Street
Manceinion
M3 3JZ

Ffôn:	0161 839 7262
Ffacs:	0161 832 5446
DX	18569, Manchester 7
E-bost:	LSO@OLSO.GSI.GOV.UK
Gwefan:	WWW.OLSO.ORG
Rhif lo-call:	0845 6010794

(Pris galwad lleol ac ar gael yn genedlaethol)